**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (Diwygiadau) 2026.

**Jayne Bryant AS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
21 Ionawr 2026

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Cymeradwywyd Rheoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 ("Rheoliadau 2025") gan y Senedd ar 11 Mawrth 2025 a daethant i rym ar 14 Mawrth 2025. Ar y pryd, roedd Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025 ("Gorchymyn Cynnal Etholiadau 2025") ar gyfer etholiadau'r Senedd yn dal i fod ar ffurf drafft ac nid oedd wedi ei osod. Felly, roedd unrhyw gyfeiriadau at Orchymyn Cynnal Etholiadau 2025 yn Rheoliadau 2025 yn cyfeirio yn hytrach at adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac yn troednodi'r rheolau perthnasol o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007.

1.2 Gwnaed ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru y byddai Rheoliadau 2025 yn cael eu diwygio ar ôl i Orchymyn Cynnal Etholiadau 2025 gael ei wneud, i adlewyrchu'r cyfeiriadau cywir, wedi eu diweddaru, at y Gorchymyn. Gwnaed y Gorchymyn ar 25 Medi 2025.

1.3 Mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau 2025, ymrwymodd Llywodraeth Cymru hefyd i ddarparu ar gyfer diffiniad o 'ymgeisydd unigol' (a fyddai'n adlewyrchu'r hyn a ddarparwyd yng Ngorchymyn Cynnal Etholiadau 2025) a byddai'r diwygiad hwnnw yn cael ei wneud ar yr un pryd â diwygio'r cyfeiriadau.

1.4 Mae rheoliad 11(1)(b) o Reoliadau 2025 yn rhagnodi bod yn rhaid i ddatganiadau ymgeiswyr ar gyfer etholiadau cyffredin prif gynghorau ddefnyddio ffont Times New Roman Script. Wrth i'r platfform gael ei ddatblygu, mae wedi dod i'r amlwg nad yw'r ddarpariaeth hon yn cefnogi egwyddorion hygyrchedd ac mae'n cael ei hepgor gan y Rheoliadau hyn felly.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Fel y nodwyd yn yr adran uchod, mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau fel y cytunwyd arnynt mewn ymateb i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig 2025 (SL(6)582[1]).

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 26(1) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. Mae Rheoliadau 2025 yn gweithredu'r ddarpariaeth hon ac yn darparu ar gyfer y Platfform

---

[1] https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=45195

Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

3.2 Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn annilysu’r Senedd.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae’r diwygiadau technegol yn ofynnol ar gyfer darparu cyfeiriadau at yr union Erthyglau perthnasol yng Ngorchymyn Cynnal Etholiadau 2025 er mwyn gwella hygyrchedd i ddarllenydd yr offeryn statudol (OS), defnyddwyr y platfform a gweithredwyr y platfform.

4.2 Mae hepgor Rhan 4, adran 11(1)(b) o Reoliadau 2025 yn caniatáu i weithredwr y platfform gynnal hygyrchedd datganiadau ymgeiswyr pan gânt eu cyhoeddi ar y platfform.

## 5. Ymgynghori

*Ymgynghoriad ffurfiol*

5.1 O ystyried natur gwbl dechnegol y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, nid oes angen ymgynghoriad ffurfiol.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Mae’r Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth yn nodi y dylid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA) ac eithrio mewn amgylchiadau penodol – y mae un ohonynt fel a ganlyn: Pan fo angen gwneud diwygiadau technegol rheolaidd neu ddiwygiadau ffeithiol er mwyn diweddaru rheoliadau etc nad ydynt yn cael effaith fawr ar bolisi. Gellir ystyried hyn ar gyfer y Rheoliadau hyn ac felly nid oes angen RIA.